OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1630 (Cy.124)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud	- -	*14 Mehefin 2005*
Yn dod i rym	- -	*24 Mehefin 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 38, 78(1), 83A and 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraffau 2 a 2A o Atodlen 12 iddi(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2005.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Mehefin 2005.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn—

(**1**) 1977 p.49. Diwygiwyd Adran 38 gan adran 1 o Ddeddf Gwasanaethau Iechyd 1980 (p.53) a pharagraff 51 o Atodlen 1 iddi, adran 1(3) o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1984 (p.48) ("y Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol"), erthygl 7(11) o O.S. 1985/39, adran 13(1) o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p.49) ("y Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau"), paragraff 27 o Atodlen 1 i Ddeddf Awdurdodau Iechyd 1995 (p.17) ("y Ddeddf Awdurdodau Iechyd").
Diwygiwyd adran 78(1) gan adran 25 o'r Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau ac Atodlen 3 iddi.
Mewnosodwyd adran 83A gan adran 14(1) o Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol 1988 (p.7) ac fe'i diwygiwyd gan baragraff 6 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau, gan baragraff 18(5) o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p.19) ("Deddf 1990") a chan baragraff 40 o Atodlen 1 i'r Ddeddf Awdurdodau Iechyd.
Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf 1990, a chan adran 65(1) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) a paragraffau 37(1) a (6) o Atodlen 4 iddi ("Deddf 1999"), gan adran 67(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p.15) a paragraffau 5 a 13 o Atodlen 5 iddi, gan adran 6(3)(c) a 37(1) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17), a chan adrannau 184 a 196 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p.43) a pharagraffau 7 a 38 o Atodlen 11 iddi a Rhan 4 o Atodlen 14 iddi.
Amnewidiwyd paragraff 2(1) o Atodlen 12 gan baragraff 8 o Atodlen 2 i'r Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau.
Mewnosodwyd paragraff 2A o Atodlen 12 gan Atodlen 1, paragraff 3 o'r Ddeddf Iechyd a Nawdd Cymdeithasol a'i ddiwygio gan adran 13(2) a (3) o'r Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau.
Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y pwerau a grybwyllir uchod i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672), fel y'i diwygiwyd gan adran 66(5) o Ddeddf 1999.

ystyr "Rheoliadau 1997" ("*the 1997 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**); ac

ystyr "Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**3**).

Diwygio rheoliad 13 o Reoliadau 1986

2. Yn rheoliad 13(2)(l)(ii) o Reoliadau 1986 (profion llygaid — cymhwyster) yn lle "£14,600" rhodder "£15,050".

Diwygio rheoliad 1 o Reoliadau 1997

3. Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 1997 (enwi, cychwyn a dehongli) yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£49.19" rhodder "£50.77"; a

(b) yn lle "£17.82" rhodder "£18.39".

Diwygio rheoliad 8 o Reoliadau 1997

4. Yn rheoliad 8(3)(l)(ii) o Reoliadau 1997 (cymhwyster — cyflenwi teclynnau optegol) yn lle "£14,600" rhodder "£15,050".

Diwygio rheoliad 19 o Reoliadau 1997

5. Yn rheoliad 19 o Reoliadau 1997 (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) —

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£46.80" rhodder "£48.00"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£12.10" rhodder "£12.40".

Diwygio'r Atodlenni i Reoliadau 1997

6.—(1) Yn Atodlen 1 i Reoliadau 1997 (codau llythrennau taleb a gwerthoedd ar yr wyneb — cyflenwi ac ailosod) yng ngholofn (3) o'r tabl (gwerth taleb ar yr wyneb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod.

(1) *Swm blaenorol*	*(2)* *Swm newydd*
£32.10	£32.90
£48.80	£50.00
£71.30	£73.10
£161.00	£165.00
£55.40	£56.80
£70.40	£72.20
£91.30	£93.60

(**2**) O.S. 1997/818; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1998/499, 1999/609 a 2841 (Cy.21), 2000/978 (Cy.48), 2001/1362 (Cy.90), 1423 (Cy.98) a 3323 (Cy.276), 2003/301 (Cy.43) a 955 (Cy.129), 2004/1014 (Cy.111), 1659 (Cy.171) a 1042 (Cy.124).

(**3**) O.S. 1986/975; fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/693 a 2841 (Cy.21), 2001/1362 (Cy.90), 1423 (Cy.98) a 3323 (Cy.276), 2002/1883 (Cy.192), 2003/955 (Cy.129) a 837 (Cy.106), 2004/1014 (Cy.111) a 1042 (Cy.124).